# <u>CYNGOR CYMUNED BUAN</u>

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 16 Rhagfyr 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Catherine Hughes
Philip Roberts
Tesni Wyn Jones
Dafydd Ll Williams
Wyn Davies
Nia Jones
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Angela Moore - Clerc

1. **Ymddiheuriadau** − Einir Lewis a Rhys Jones

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cadarnhawyd cofnodion 11Tachwedd2021 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni Wyn Jones ac eilwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**
Mae gohebiaeth wedi ei dderbyn ynglyn a chau y lôn o Bryncynan i Glanrhyd a Dinas er mwyn gwneud gwaith ar y lon eto. Mi all y ffordd fod ar gau am 4 wythnos ond eu bod yn gobeithio y byddant wedi gorffen o fewn pythefnos. Y cynghorwyr yn gobeithio y bydd arwyddion yn mynd i fyny digon buan er mwyn gadael digon o amser i'r trigolion wybod y tro yma.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**
Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Tachwedd 2021 i 3 Rhagfyr 2021 yn gywir yn y swm o £1552.55.

Adroddodd y cynghorwr Hughie Williams bod anfoneb wedi ei dderbyn gan Bleddyn Evans trydanwr yn y swm o £240 am y gwaith trydan i osod defibrillator Boduan. Rhoddwyd pris ganddo yn wreiddiol o £235 felly penderfynwyd peidio talu'r anfoneb ac mynd yn nôl ato i ofyn pam bod y bil £5 yn fwy na beth gytunwyd yn wreiddiol.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid a Thollau EM | £55.80 | Siec rhif 200648 |
| Angela Moore | £111.79 | Siec Rhif 200649 |

**Cyfraniad Ariannol**
Derbyniwyd un cais gan Ty Gobaith. Mae Ty Gobaith wedi derbyn cyfraniad o £250 yn mis Mai 2021 a teimlwyd ei bod yn addas disgwyl tan oleiaf Mai 2022 cyn cyfrannu eto.

**5. Materion Cynllunio**

Doedd dim materion cynllunio i'w trafod.

**6. Datgan Diddordeb**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**7. Praesept 2022/23**
Cytunwyd i adael y Praespet fel y llynedd yn y swm o £3800.

**8. Materion er Gwybodaeth**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

9. **Unrhyw fater arall**

**Defibrillators**
Bu digwyddiad yn pentref Rhydyclafdy ble roedd angen defibrillator. Cysylltodd Tomos Hughges o'r Ambiwlans Awyr efo'r clerc yn dweud bod y person oedd ei angen wedi dweud nad oedd y defibrillator yn y cabinet. Erbyn deallt mae dau defibrillator wedi ei gofrestru yn Rhydyclafdy, un yn Tafarn Tu Hwnt i'r Afon a'r llall yn Talbont. Mae'r un sydd gan y Cyngor yn Talbont yn ei leoliad yn gywir. Mae Mr Hughes wedi sôn yn y sgwrs ffôn nad yw'r defibrillator yn Talbont wedi ei gofrestru yn gywir a bod angen cofrestru hwn ynghyd a'r un yn Ceidio a Boduan. Dyweddodd y Cynghorydd Catherine Hughes bod rhywun wedi bod yn ymweld a'r defbrillator ac wedi newid y batri a rhoi sticker tic gwyrdd arno. Gofynnodd i'r clerc gadarnhau efo Mr Hughes os oedd hyn yn ddigonol. Y clerc wedi gofyn y cwestiwn ond hyd yma heb gael ymateb.

Gwelodd y Cynghorydd HughieWilliams Mr Hughes yn y pentref ac yn y sgwrs soniodd Mr Hughes y byddai yn rhoi difibrillator am ddim i'r Cyngor. Mae Mr Williams wedi trio cysylltu efo Mr Hughes ynglyn a hyn ond hyd yma heb gael ymateb.

**Noson Capel Ceidio**
Cafwyd noson llwyddiannus iawn yn Nghapel Ceidio yn dangos i'r trigolion sut mae'r difibrillator yn gweithio. Diolchodd y Cynghorydd Hughie Williams i'r Cynghorydd Wyn Davies a Cynghorydd Nia Jones am drefnu'r noson ac i'r Cynghorydd Rhys Jones am ei waith o arddangos y difibrillator. Ymddiheurodd y Cynghorydd Anwen Davies am fethu bod yn bresennol ar y noson.

**Llifogydd**
Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Cymuned Llanbedrog yn gofyn am gefnogaeth i'r llythyr maent yn ei yrru i Mark Drakeford a Julie James yn y Cynulliad, Y Prif weithredwr a Pennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd a Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn a'r llifogydd ar yr A499 Pwllheli i Llanbedrog. Roedd pawb o blaid rhoi cefnogaeth i'r llythyr.

**Materion Ffyrdd**
Mae lôn Ceidio i Boduan wedi bod efo dipyn o ddwr arno. Y Cynghorydd Catherine Hughes wedi cael deallt bod angen peipen newydd arni. Adroddodd y Cynghorydd Anwen Davies ei bod yn mynd a'r peth yn bellach efo'r sefyllfa.

Mae'r tyllau oedd yn y lôn o'r ysgol yn Rhydyclafdy i Llanbedrog wedi cael eu llenwi. Dyweddodd y Cynghorydd Catherine Hughes eu bod wedi gwneud gwaith taclus iawn a gofynnodd y Cynghorydd Hughie Williams i'r clerc ysgrifennu at yr Adran Prifyrdd i ddiolch iddynt am eu gwaith.

**Swydd Clerc**
Adroddodd y Cynghorydd Hughie Williams bod y clerc wedi derbyn swydd llawn amser ac wedi rhoi rhybudd o 12 wythnos ei bod eisiau rhoi gorau i'r swydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.